# Cynllun Archwilio 2022 – Cyngor Dinas a Sir Abertawe

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2937A2022

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Archwilio Cymru a, lle y bo'n berthnasol, yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Cynllun Archwilio 2022

Ynglŷn â'r ddogfen hon 4

Fy nyletswyddau 4

Effaith COVID-19 5

Archwiliad o'r datganiadau ariannol 5

Archwiliad o berfformiad 7

Ardystio hawliadau am grantiau a ffurflenni grantiau 9

Swyddogaethau archwilio statudol 9

Ffi, tîm archwilio ac amserlen 10

# Cynllun Archwilio 2022

## Ynglŷn â'r ddogfen hon

1 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gwaith yr wyf yn bwriadu ei wneud yn ystod 2022 i gyflawni fy nghyfrifoldebau statudol fel eich archwilydd allanol ac i gyflawni fy rhwymedigaethau dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Fy nyletswyddau

2 Rwy'n cwblhau gwaith bob blwyddyn i gyflawni'r dyletswyddau canlynol.

### Archwiliad o'r datganiadau ariannol

3 Bob blwyddyn rwy'n archwilio datganiadau ariannol Cyngor Dinas a Sir Abertawe (y Cyngor) i wneud yn siŵr y rhoddir cyfrif yn briodol am arian cyhoeddus.

### Gwerth am arian

4 Rhaid i'r Cyngor sefydlu trefniadau i gael gwerth am arian ar gyfer yr adnoddau y mae'n eu defnyddio a rhaid i mi fod wedi fy argyhoeddi ei fod wedi gwneud hyn.

### Yr egwyddor datblygu cynaliadwy

5 Mae angen i'r Cyngor gydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y mae'n gwneud hyn.

# Effaith COVID-19

6 Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith ddigynsail ar y Deyrnas Unedig ac ar waith sefydliadau'r sector cyhoeddus.

7 Er bod Cymru ar Lefel Rhybudd 0 o ran y Coronafeirws ar hyn o bryd, bydd Archwilio Cymru'n parhau i fonitro'r sefyllfa a bydd yn trafod goblygiadau unrhyw newidiadau yn y sefyllfa gyda'ch swyddogion.

# Archwiliad o'r datganiadau ariannol

8 Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol. Mae hyn yn cynnwys:

- barn ynglŷn â 'gwirionedd a thegwch' datganiadau ariannol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022; ac
- asesiad pa un a yw Adroddiad Naratif a Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor wedi'u paratoi yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol a pha un a ydynt yn gyson â'r datganiadau ariannol ac â'm gwybodaeth i am y Cyngor.

9 Yn ychwanegol at fy nghyfrifoldebau am archwilio datganiadau ariannol y Cyngor, mae gennyf hefyd gyfrifoldeb am:

- ardystio ffurflen i Lywodraeth Cymru sy'n darparu gwybodaeth am y Cyngor i roi cymorth i baratoi Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan;
- ymateb i gwestiynau am y cyfrifon a gwrthwynebiadau i'r cyfrifon gan etholwyr lleol (bydd ffioedd ychwanegol yn cael eu codi am y gwaith hwn, os yw'n angenrheidiol);
- archwilio cyfrifon cronfa bensiwn y Cyngor (mae cynllun archwilio ar wahân wedi cael ei baratoi ar gyfer archwilio'r gronfa bensiwn);
- archwiliad annibynnol o ffurflen flynyddol Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe; ac
- ardystio nifer o hawliadau am grantiau a ffurflenni grantiau fel a gytunwyd gyda'r cyrff ariannu.

10 Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ynghylch gwirionedd a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig ond rwy'n mabwysiadu cysyniad perthnasedd. Fy nod yw adnabod camddatganiadau perthnasol, hynny yw y rhai a allai beri i'r sawl sy'n darllen y cyfrifon gael ei gamarwain. Bydd y lefelau sy'n peri i mi farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol yn cael eu gwneud yn hysbys i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn cwblhau'r archwiliad.

11 Rwy'n barnu bod unrhyw gamddatganiadau islaw lefel fach iawn (sef lefel perthnasedd o 5%) yn rhai nad yw'n ofynnol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu eu hystyried ac felly ni fyddaf yn adrodd arnynt.

12 Ni osodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf o ran cynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

13 Byddaf hefyd yn cyflwyno adroddiad drwy eithriad ar nifer o faterion a nodir mewn mwy o fanylder yn ein Datganiad o Gyfrifoldebau, ynghyd â rhagor o wybodaeth am fy ngwaith.

## Risgiau i'r archwiliad o'r datganiadau ariannol

14 Mae'r tabl canlynol yn nodi'r risgiau arwyddocaol yr wyf wedi'u hadnabod ar gyfer yr archwiliad o'r Cyngor.

**Arddangosyn 1: risgiau i'r archwiliad o'r datganiadau ariannol**

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r risgiau allweddol i'r archwiliad o'r datganiadau ariannol a adnabuwyd adeg cynllunio'r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig |
| --- | --- |
| **Risgiau arwyddocaol** | |
| **Gwrthwneud rheolaethau gan reolwyr**<br>Mae'r risg y gallai rheolwyr wrthwneud rheolaethau'n bresennol ym mhob endid. O ystyried y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o'r fath ddigwydd, tybir bod hon yn risg arwyddocaol [ISA 240.31-33]. | Byddwn yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer gwyrdueddiadau; a<br>• gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodion arwyddocaol y tu allan i gwrs arferol busnes. |
| **Rhoi cyfrif am ddibrisiant costau hanesyddol**<br>Mae'r Cyngor wedi bod yn rhoi cyfrif yn anghywir am y trosglwyddiad dibrisiant costau hanesyddol rhwng y gronfa ailbrisio a'r cyfrif addasu cyfalaf ers o leiaf 2011-12. Nid yw wedi gallu mesur gwerth y camddatganiad hwn i gywiro'r gwall a chan y gallai'r ddwy gronfa fod wedi'u camddatgan yn berthnasol, cafodd datganiadau ariannol y Cyngor ar gyfer 2020-21 eu hamodi.<br>Os nad yw dadansoddiad pellach y Cyngor o'i gofnodion cyfrifyddu'n gallu asesu a chywiro'r gwall hwn, ceir risg ychwanegol y bydd y gronfa ailbrisio a'r cyfrif addasu cyfalaf yn dal i fod wedi'u camddatgan yn berthnasol. | Byddwn yn:<br>• adolygu'r prosesau a thybiaethau a ddefnyddiwyd i ddadansoddi'r cofnodion cyfrifyddu mewn perthynas â'r gronfa ailbrisio;<br>• adolygu unrhyw addasiadau wedi'u hamcangyfrifo ar gyfer gwyrduedd; ac yn<br>• profi'r addasiadau a wnaed i sicrhau eu bod wedi cael eu cyfrifo a'u hadlewyrchu'n gywir yn y datganiadau ariannol. |
| **Risgiau archwilio eraill** | |
| **Cyllid COVID-19**<br>Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar y risgiau o gamddatganiad perthnasol ac ar drefn ein harchwiliad a'n dull o'i gyflawni. Mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu bod amryw ffrydiau cyllid ar gael i'r Cyngor. Mewn rhai achosion, mae'r arian hwn yn rhoi cymorth ariannol i'r Cyngor ei hun. | Byddwn yn adolygu'r ffrydiau cyllid a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn cadarnhau'r driniaeth gyfrifyddu briodol gyda'r Cyngor. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| Mewn achosion eraill, mae'r arian wedi cael ei weinyddu gan y Cyngor, gan wneud taliadau i drydydd partïon ar ran Llywodraeth Cymru. Trefnwyd fod taliadau ar gael trwy nifer o wahanol gynlluniau yn ystod 2021-22 ac mae'r symiau dan sylw'n berthnasol i'r cyfrifon. Ceir risg o driniaeth gyfrifyddu anghywir ar gyfer cyllid COVID-19, h.y. trefniadau penadur neu asiant. | |
| **Prisio datblygiad Bae Copr**<br>Mae datblygiad Bae Copr wedi ysgwyddo lefelau sylweddol o wariant cyfalaf sydd wedi cael ei gynnwys hyd yma o fewn asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu. Mae elfennau sylweddol o'r datblygiad hwn, sy'n cynnwys nifer o asedau y gellir eu hadnabod ar wahân, wedi dechrau cael eu defnyddio yn y flwyddyn ac mae'n ofynnol i'r Cyngor ailbrisio asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu pan ddechreuir eu defnyddio.<br>Mae'r sail prisio ar gyfer asedau a ddefnyddir yn dibynnu ar y math o ased a'i gategori. Felly ceir risg efallai na fydd yr asedau hyn yn cael eu dosbarthu'n gywir ac felly'n cael eu prisio ar y sail gywir. | Byddwn yn:<br>• adolygu'r prosesau a'r tybiaethau a ddefnyddiwyd i gategoreiddio a phrisio asedau y dechreuwyd eu defnyddio a'r cyfarwyddiadau a roddwyd i'r prisiwr;<br>• gwerthuso cymhwysedd, galluoedd a gwrthrychedd arbenigwr prisio'r Cyngor; ac yn<br>• profi'r prisiadau a wnaed i sicrhau eu bod yn cael eu hadlewyrchu'n gywir yn y gofrestr asedau a'r datganiadau ariannol. |
| **Amcangyfrif ym mhrisiadau asedau**<br>Mae Rhoi Cyfrif am Eiddo, Offer a Chyfarpar yn dal i fod yn un o'r meysydd sy'n achosi'r her fwyaf yn y cyfrifon.<br>Yng ngoleuni cyfyngiadau COVID a oedd mewn grym yn ystod 2021-22 ac ansicrwydd ynghylch gwerthoedd y farchnad ar gyfer asedau ers dechrau'r pandemig, ceir risg y gallai gwerth cario ymlaen asedau yr adroddir arno yn y cyfrifon fod yn berthnasol wahanol i werth cyfredol asedau ar 31 Mawrth 2022. Gallai hyn fod yn wir lle mae asedau wedi cael eu prisio ar sail dreigl ac nid ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. | Byddwn yn adolygu rhaglen prisio asedau'r Cyngor i ganfod pryd y cafodd grwpiau unigol o asedau eu prisio ac yn ceisio cadarnhau nad yw prisiadau a gyflawnwyd yn gynharach na 31 Mawrth 2022 yn berthnasol wahanol i werth cyfredol asedau ar ddiwedd y flwyddyn. |

## Archwilio perfformiad

15 Yn ychwanegol at fy Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol, rwyf hefyd yn cynnal rhaglen o waith archwilio perfformiad i gyflawni fy nyletswyddau fel Archwilydd Cyffredinol fel a nodir ym mharagraffau pedwar a phump mewn perthynas â gwerth am arian a datblygu cynaliadwy.

16 Mewn ymateb i’r pandemig, fe fabwysiedais ddull hyblyg o wneud fy ngwaith archwilio perfformiad o ran cynnwys y gwaith a’r fethodoleg. Fe wnaeth hyn fy ngalluogi i ymateb i’r amgylchedd allanol sy’n newid yn gyflym a darparu mwy o adborth mewn amser real mewn ystod o fformatau.

17 Ar gyfer 2022-23, rwy’n bwriadu parhau â’r dull yma i helpu i alluogi fy ngwaith i fod yn ymatebol ac amserol, a lle y bo’n bosibl i rannu gwersi’n gyflymach. Fel rhan o’r dull hwn, rwy’n disgwyl y bydd cyfran sylweddol o’m gwaith archwilio perfformiad lleol yn parhau i gael ei gyflawni trwy’r Prosiect Asesu Sicrwydd a Risg, a fydd yn mynd rhagddo’n barhaus trwy gydol y flwyddyn.

18 Gan bod cryn dipyn yn gyffredin o ran y risgiau sy’n wynebu cynghorau rwyf hefyd yn bwriadu cyflawni nifer o brosiectau thematig sy’n archwilio risgiau sy’n gyffredin i’r holl gynghorau.

19 Yn ystod 2020-21, fe ymgynghorais â chyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill ynghylch sut y byddaf yn mynd ati i gyflawni fy nyletswyddau mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 o 2020-2025.

20 Ym mis Mawrth 2021, fe ysgrifennais at y cyrff cyhoeddus a ddynodwyd dan y Ddeddf yn nodi fy mwriadau, sy’n cynnwys a) cynnal archwiliadau penodol o’r modd y mae cyrff cyhoeddus wedi pennu eu hamcanion llesiant a b) integreiddio fy archwiliadau mewn perthynas â’r egwyddor datblygu cynaliadwy o gamau i gyflawni amcanion llesiant â’m rhaglenni archwilio cenedlaethol a lleol.

21 Mae fy archwilwyr yn cynnal cyswllt â’r Cyngor i gytuno ar yr amser mwyaf priodol i archwilio’r modd y pennwyd amcanion llesiant.

22 Bydd yr archwiliad o gamau i gyflawni amcanion llesiant yn cael ei gynnal fel rhan o waith a nodir yn y cynllun archwilio hwn a chynlluniau archwilio dilynol, gyda’r cyfan yn arwain at fy adroddiad statudol dan y Ddeddf yn 2025.

23 Ar gyfer 2022-23 caiff fy ngwaith archwilio perfformiad yn y Cyngor ei nodi isod.

**Arddangosyn 2: Rhaglen Archwilio Perfformiad 2022-23**

Mae’r tabl hwn yn crynhoi’r rhaglen archwilio perfformiad ar gyfer 2022-23

| Rhaglen archwilio perfformiad | Disgrifiad byr |
|---|---|
| Asesiad Sicrwydd a Risg | Prosiect i ganfod lefel y sicrwydd archwilio a/neu ble y gall fod yn ofynnol gwneud gwaith archwilio pellach mewn blynyddoedd yn y dyfodol mewn perthynas â risgiau i allu’r Cyngor i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio’i adnoddau a gweithredu’n unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy.<br>Yn y Cyngor mae’r prosiect yn debygol o ganolbwyntio’n arbennig ar:<br>• y sefyllfa ariannol<br>• rheoli’r rhaglen gyfalaf<br>• llywodraethu<br>• defnyddio gwybodaeth am berfformiad – gyda ffocws ar adborth a deilliannau defnyddwyr gwasanaethau; a<br>• phennu amcanion llesiant os yn berthnasol |

| Rhaglen archwilio perfformiad | Disgrifiad byr |
|---|---|
| Adolygiad thematig – gofal heb ei drefnu | Rydym yn bwriadu cynnal adolygiad traws-sector a fydd yn canolbwyntio ar lif cleifion allan o ysbytai. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried sut y mae'r Cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid i fynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gofal cymdeithasol i gefnogi'r broses o ryddhau cleifion o ysbytai, yn ogystal ag atal pobl rhag gorfod cael eu derbyn i ysbytai. Bydd y gwaith hefyd yn ystyried pa gamau sy'n cael eu cymryd i ddarparu datrysiadau yn y tymor canolig a hwy. |
| Adolygiad thematig (i'w gadarnhau) | I'w gadarnhau yn dilyn yr ymgynghoriad y cyfeirir ato ym **mharagraff 26** isod. |
| Prosiect Lleol i'w gadarnhau | I'w gadarnhau yn dilyn trafodaethau pellach gyda'r Cyngor |

24 Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddais ymgynghoriad a oedd yn gofyn am farn pobl i oleuo ein rhaglen o waith archwilio yn y dyfodol ar gyfer 2022-23 a'r tu hwnt. Yn arbennig, mae'n ystyried testunau y gellid bwrw ymlaen â hwy trwy ein harchwiliadau a'n hastudiaethau gwerth am arian cenedlaethol a/neu drwy waith archwilio lleol ar draws cyrff lluosog yn y GIG, llywodraeth ganolog a llywodraeth leol. Wrth i ni ddatblygu a chyflawni ein rhaglen waith yn y dyfodol, byddwn yn rhoi themâu allweddol yn ein strategaeth bum mlynedd newydd ar waith, sef:

- cyflawni rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd da; a hynny'n cael ei ategu gan
- ddull o gyfathrebu a dylanwadu sydd wedi'i dargedu ac yn cael effaith fawr.

25 Cafodd y meysydd ffocws posibl ar gyfer gwaith archwilio yn y dyfodol a nodwyd gennym yn yr ymgynghoriad eu fframio yng nghyd-destun tair thema o'n dadansoddiad Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus yn hydref 2021, sef: byd sy'n newid; y pandemig parhaus; a thrawsnewid y modd y darperir gwasanaethau. Fe wnaethom hefyd wahodd pobl i fynegi barn ynglŷn â meysydd posibl ar gyfer gwaith dilynol.

26 Byddwn yn darparu diweddariadau ar y rhaglen archwilio perfformiad trwy ein diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

# Ardystio hawliadau am grantiau a ffurflenni grantiau

27 Gofynnwyd imi hefyd wneud gwaith ardystio ar hawliadau'r Cyngor am grantiau, yr wyf yn disgwyl y byddant yn cynnwys ffurflenni Budd-dal Tai, Pensiynau Athrawon ac Ardrethi Annomestig.

# Swyddogaethau archwilio statudol

28 Yn ogystal ag archwilio'r cyfrifon, mae gennyf gyfrifoldebau statudol am gael cwestiynau ynghylch y cyfrifon a gwrthwynebiadau iddynt gan etholwyr lleol. Caiff y cyfrifoldebau hyn eu nodi yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:

- Adran 30 Arolygu dogfennau a chwestiynau yn ystod archwiliad; ac
- Adran 31 Yr hawl i wneud gwrthwynebiadau yn ystod archwiliad.

29 Gan bod y gwaith hwn yn adweithiol, nid wyf wedi gwneud lwfans yn y tabl ffioedd isod. Os byddaf yn cael cwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl ar y pryd.

# Ffi, tîm archwilio ac amserlen

30 Mae fy ffioedd ac amserlenni arfaethedig ar gyfer cwblhau'r archwiliad yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol:

- darperir y datganiadau ariannol yn unol ag amserlen y byddir yn cytuno arni gan ystyried effaith COVID-19, i'r ansawdd disgwyliedig ac maent wedi bod trwy adolygiad sicrhau ansawdd cadarn;
- mae gwybodaeth a ddarperir i ategu'r datganiadau ariannol yn unol â'r hyn a ddarparwyd mewn blynyddoedd blaenorol;
- darperir ystafell a chyfleusterau priodol i alluogi fy nhîm archwilio i gyflawni'r archwiliad mewn modd effeithlon;
- bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad;
- rydych wedi rhoi'r holl reolaethau a gwiriadau angenrheidiol ar waith i'w gwneud yn bosibl i'r Swyddog Cyllid Cyfrifol ddarparu pob sicrwydd y mae ei angen arnaf yn y Llythyr Sylwadau a gyfeiriwyd ataf; ac
- mae rhaglen waith arfaethedig y tîm Archwilio Mewnol wedi'i chwblhau ac mae'r rheolwyr wedi ymateb i faterion a allai fod wedi effeithio ar y datganiadau ariannol.

31 Os byddaf yn cael cwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl ar y pryd.

## Ffi

32 Fel a nodir yn ein Cynllun Ffioedd 2022-23, mae cyfraddau ein ffioedd ar gyfer 2022-23 wedi cynyddu 3.7% o ganlyniad i'r angen i fuddsoddi'n barhaus yn ansawdd ein gwaith archwilio ac mewn ymateb i bwysau cynyddol o ran costau.

33 Caiff y ffi a amcangyfrifir ar gyfer 2022 ei nodi yn **Arddangosyn 3**. Mae hyn yn gynnydd o 3.5% o'i gymharu â'ch ffi wirioneddol yn 2021.

**Arddangosyn 3: ffi archwilio**

Mae'r tabl hwn yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig ar gyfer 2022, yn ôl maes o fewn gwaith archwilio, ochr yn ochr â'r ffi archwilio wirioneddol ar gyfer y llynedd.

| Maes archwilio | Ffi arfaethedig (£)[1] | Ffi wirioneddol y llynedd (£) |
|---|---:|---:|
| Archwiliad o'r cyfrifon [2] | £245,239 | £237,000 |
| Gwaith archwilio perfformiad[3] | £102,676 | £99,310 |
| Gwaith ardystio grantiau[4] | £31,150 | £30,100 |
| Gwaith archwilio ariannol arall[5] | £1,955 | £1,887 |
| **Cyfanswm y ffi** | **£381,020** | **£368,297** |

[1] Nodiadau: Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, nad yw'n cael ei chodi arnoch.

[2] Yn daladwy rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Hydref 2022.

[3] Yn daladwy rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023.

[4] Yn daladwy wrth i waith gael ei wneud.

[5] Archwiliad annibynnol o Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe

34 Bydd cynllunio'n digwydd yn barhaus, ac efallai y bydd newidiadau i'm rhaglen o waith archwilio ac felly fy ffi yn ofynnol os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn dod i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod gyda'r Cyngor yn gyntaf.

35 Ceir rhagor o wybodaeth yn fy Nghynllun Ffioedd 2022-23.

## Tîm archwilio

36 Caiff prif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, eu crynhoi yn **Arddangosyn 4**.

**Arddangosyn 4: fy nhîm archwilio**

Mae'r tabl hwn yn rhestru aelodau'r tîm archwilio lleol a'u manylion cyswllt.

| Enw | Rôl | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Derwyn Owen | Cyfarwyddwr Ymgysylltu | 02920 320651 | derwyn.owen@archwilio.cymru |
| Gillian Gillett | Rheolwr Archwilio (Archwilio Ariannol) | 02920 829305 | gillian.gillett@archwilio.cymru |
| Daniel King | Arweinydd Archwilio (Archwilio Ariannol) | 02920 829373 | daniel.king@archwilio.cymru |
| Non Jenkins | Rheolwr Archwilio (Archwilio Perfformiad) | 02920 320500 | non.jenkins@archwilio.cymru |
| Justine Morgan | Arweinydd Archwilio (Archwilio Perfformiad) | 02920 320500 | justine.morgan@archwilio.cymru |

37 Gallwn gadarnhau bod aelodau'r tîm i gyd yn annibynnol arnoch chi a'ch swyddogion. Hefyd, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl y mae angen i ni eu dwyn i'ch sylw.

## Amserlen

38 Caiff y cerrig milltir allweddol ar gyfer y gwaith a nodir yn y cynllun hwn eu dangos yn **Arddangosyn 5**.

39 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn rhoi'r hawl i etholwyr ofyn cwestiynau ynghylch cyfrifon yr Awdurdod a chyflwyno gwrthwynebiadau iddynt i'r Archwilydd Cyffredinol. Mae'r hawliau i ofyn cwestiynau a chyflwyno gwrthwynebiadau yn ystod yr archwiliad yn gysylltiedig â hawliau etholwyr i edrych ar y cyfrifon sydd hefyd wedi'u nodi yn Neddf 2004.

**Arddangosyn 5: Amserlen archwilio**

| Allbwn arfaethedig | Gwneud y gwaith | Cwblhau'r adroddiad |
| --- | --- | --- |
| Cynllun Archwilio 2022 | Ionawr - Mawrth 2022 | Ebrill 2022 |
| **Gwaith archwilio'r Datganiadau Ariannol:**<br>• Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol<br>• Barn ar y Datganiadau Ariannol | Chwefror - Hydref 2022 | Hydref 2022 (i'w gadarnhau)<br><br>Hydref 2022 (i'w gadarnhau) |
| **Gwaith archwilio perfformiad:**<br>• Prosiect Asesu Sicrwydd a Risg<br>• Adolygiad Thematig – gofal heb ei drefnu<br>• Adolygiad Thematig<br>• Prosiect lleol | Bydd graddfeydd amser ar gyfer prosiectau unigol yn cael eu trafod gyda'r Cyngor a'u nodi o fewn y briffiau prosiect penodol a gynhyrchir ar gyfer pob darn o waith. | |
| **Gwaith ardystio grantiau:**<br>• Budd-dal Tai<br>• Ardrethi annomestig<br>• Ffurflen pensiynau athrawon<br>• Cyfrif Memorandwm Cyllideb Gyfunol<br>• Ffurflen Cynllun Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru | Hydref – Rhagfyr 2022 | Hydref – Rhagfyr 2022 |
| **Gwaith archwilio ariannol arall**<br>• Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan<br>• Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe – archwiliad annibynnol | I'w gadarnhau<br><br>Awst – Medi 2022 | I'w gadarnhau<br><br>Medi 2022 |
| **Crynodeb Archwilio Blynyddol** | Amherthnasol | Rhagfyr 2022 (yn amodol ar gwblhau gwaith arall) |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.